TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Adobe Photoshop



### Yn gryno

Dewch i ddysgu sut i ddefnyddio Adobe Photoshop a'i lawer o swyddogaethau er mwyn creu cynnwys cyffrous i'w ddefnyddio ar wefannau, y cyfryngau cymdeithasol a llawer mwy.

### Mae'r cwrs hwn ar gyfer…

…pawb - Nid yw Photoshop ar gyfer ffotograffwyr yn unig!

…unrhyw un sydd â diddordeb mewn creu eu lluniau eu hun o'r newydd ac addasu ffotograffau

…unrhyw un sydd eisiau cael gwybod beth yw Photoshop a sut i'w ddefnyddio

### Cynnwys y cwrs

Mae sgiliau Photoshop yn gynyddol ddefnyddiol mewn amrywiaeth o swyddi, a bydd y cwrs hwn yn sicrhau eich bod yn gallu golygu ac addasu ffotograffau yn effeithiol, a chreu

delweddau deniadol eich hun gartref neu yn y gwaith. Maen nhw'n sgiliau defnyddiol os ydych yn bwriadu gwella eich CV.

Bydd pob sesiwn 2 awr yn cyflwyno amrywiaeth o nodweddion Photoshop a'r technegau i'w defnyddio. Yna bydd tasg yn y dosbarth gan ddefnyddio'r dechneg hon, er mwyn cael deilliant ymarferol gyda chymorth gan diwtoriaid unigol.

Bydd pob delwedd yn cael ei chyflenwi i'w defnyddio yn y dosbarth, ond fe fyddwch chi'n cael eich annog i ddod â'ch lluniau eich hun hefyd. Argymhellir eich bod yn dod â ffon USB neu yriant caled symudol i arbed eich delweddau gorffenedig a mynd â nhw gartref.

Gall y cwrs hwn gynnwys

Cyflwyniad i ryngwyneb Adobe Photoshop
Fformatau ffeiliau lluniau
Y pecyn cymorth
Archwilio'r oriel hidlwyr
Brwshys a sut i greu un eich hun
Camau Gweithredu a Dethol
Cywiro a mireinio delweddau
Gweithio gyda haenau a masgiau
Testun
Arbed i'w ddefnyddio ar-lein
Animeiddiadau cyflym
Torri, newid maint a chopïo

Does dim asesiad ffurfiol yn rhan o'r cwrs.

**Gofynion Mynediad**

Bydd disgwyl i chi gael gwybodaeth sylfaenol o gyfrifiaduron er mwyn cofrestru ar gyfer y cwrs.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Does dim angen i chi fod ag unrhyw wybodaeth flaenorol o Adobe Photoshop gan fod y cwrs 10 wythnos hwn yn dechrau o'r dechrau. Erbyn diwedd y cwrs, bydd gennych ddealltwriaeth dda o dechnegau a phrosesau Photoshop.